**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LFGT110213

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Tachwedd 2013

Annwyl David,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Bil Gofal**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd yn gofyn am eglurhad o'r rhesymau ymarferol dros beidio â defnyddio proses Cyfnod 2 wrth gyflwyno darpariaethau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl.

Y Bil Gofal, sy'n cael ei gyflwyno yn San Steffan, yw'r prif gyfrwng ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwelliannau arfaethedig i adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Y Ddeddf hon, wedi'i diwygio, fydd y brif statud ddeddfwriaethol o hyd ar gyfer darparu gwasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae rhai gwelliannau canlyniadol sydd angen eu gwneud i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rydym mewn sefyllfa unigryw, gyda'r Bil Gofal a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn datblygu ar amserlen debyg, ond eto'n wahanol. Yr amseriad yw'r prif reswm am y ffaith nad yw'n bosibl gwneud y gwelliannau canlyniadol hyn drwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Bil hwn wrthi'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor ar Gyfnod 2. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau i adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, sy'n cael eu gwneud gan gymal 71 o'r Bil Gofal wedi dod yn gyfraith eto ac mae hyn yn creu anhawster.

Dim ond ar ôl i'r Bil Gofal ddod yn gyfraith y bydd modd gwneud gwelliannau i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwelliannau i adran 117. Gan na fydd hyn yn digwydd tan ar ôl i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gael Cydsyniad Brenhinol, nid yw'n bosibl gwneud y gwelliannau hyn yn ystod Cyfnod 2 proses y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn ôl cyngor cyfreithiol, y Bil Gofal oedd y cyfrwng gorau ar gyfer dod â'r newidiadau hyn i rym, a dyna'r dull a fabwysiadwyd gennyf i a'm swyddog cyfatebol Norman Lamb, AS, y Gweinidog Gwladol dros Ofal a Chymorth.

Er na fydd modd trafod y cynigion hyn yn ystod Cyfnod 2 ac nad oes llawer o amser cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, byddwn yn hapus i gwrdd â chi i drafod hyn ymhellach pe bai hynny o gymorth.

Byddaf hefyd yn ceisio sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r sefyllfa hon pan fyddaf yn cyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Tachwedd 2013.

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services